**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

25 Tachwedd 2021

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Tachwedd ynglŷn â chwestiynau nas cyrhaeddwyd ar bolisi pysgodfeydd a dyframaethu yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ar 21 Hydref.

Ymdriniaf â phob cwestiwn yn ei dro.

- **Sut rydych chi'n blaenoriaethu gweithredu'r Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd?**

Ochr yn ochr â Gweinyddiaethau Pysgodfeydd eraill y DU, byddaf yn cyhoeddi, yn y Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd (JFS), restr o Gynlluniau Rheoli Pysgodfeydd (FMP) i'w cyflwyno yn ystod oes y Datganiad cyntaf. Bydd rhai o'r Cynlluniau Rheoli hyn yn cael eu llunio ar y cyd â Gweinyddiaethau eraill er mwyn adlewyrchu rhychwant ddaearyddol y stociau pysgod penodol. Bydd eraill yn gynlluniau Rhanbarthol ar gyfer Cymru a byddant yn adlewyrchu ac yn cefnogi'r materion yr wyf yn eu hystyried mewn perthynas â'n nodau a'n huchelgais ein hunain o ran polisi.

- **A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Brosiect Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru, ac yn benodol, pryd y byddwch yn mynd ati i ymgynghori?**

Mae CNC yn asesu effeithiau treillrwydo ar waelod y môr drwy brosiect Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru (AWFA). Hyd yma, mae'r prosiect wedi cynnal yr asesiadau y rhoddwyd blaenoriaeth uchel iddynt ac rydym yn disgwyl yr asesiadau â 'blaenoriaeth ganolig' ar gêr llusg ddiwedd y flwyddyn ariannol hon.

Pan fydd yr asesiadau wedi'u cwblhau, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu ac ymgynghori ar unrhyw gynigion y bydd eu hangen i fynd i'r afael â'r asesiadau blaenoriaeth 'uchel' a 'chanolig'. Byddwn yn penderfynu ar amseriad yr ymgynghoriad ochr yn ochr â blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru unwaith y bydd yr asesiadau wedi cael eu hystyried.

- **A allwch chi roi rhagor o wybodaeth am sut y mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cefnogaeth ar gyfer cynhyrchu pysgod cregyn cynaliadwy drwy ddulliau dyframaethu yng Nghymru yn y dyfodol?**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae twf o ran cynhyrchu pysgod cregyn cynaliadwy yng Nghymru yn elfen allweddol o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Rydym yn ymwybodol o’r manteision amgylcheddol sy’n gysylltiedig â dyframaeth troffig isel, fel pysgod cregyn a chynhyrchu gwymon. Yn ddiweddar, gwnaethom gyhoeddi bwrdd darlunio ar-lein ar gyfer dyframaethu. Mae'r bwrdd darlunio’n rhoi gwybodaeth gyd-destunol am bolisi a deddfwriaeth berthnasol ac am le y gellir dod o hyd i ganllawiau perthnasol ac yn rhoi trosolwg o gydsyniadau ac asesiadau amgylcheddol sy'n berthnasol i'r sector er mwyn cefnogi ymgeiswyr. Mae'r bwrdd darlunio i'w weld drwy’r ddolen hon. Pecynnau Tystiolaeth Forol | LLYW.CYMRU

Bydd Gorchymyn Pysgodfa Dwyrain Afon Menai lle caiff y rhan fwyaf o gregyn gleision Cymru eu cynhyrchu yn dod i ben y flwyddyn nesaf: rwyf wedi blaenoriaethu adnoddau i ddarparu gorchymyn yn ei le er mwyn rhoi sicrwydd i'r busnesau sy'n dibynnu ar y bysgodfa. Fodd bynnag, mae Brexit, a cholli mynediad i farchnadoedd yr UE yn sgil hynny, yn gryn fygythiad i gynhyrchu pysgod cregyn yn gynaliadwy yng Nghymru. Rydym yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU am y mater hwn ac mae hi wedi codi'r mater yn uniongyrchol gyda'r UE. Wrth inni aros am ymateb oddi wrth yr UE, nid ydym, 11 mis yn ddiweddarach, fymryn yn nes at ddod o hyd i ateb a fyddai'n caniatáu i fasnach ailddechrau.

Byddaf yn cyfarfod â gweithredwyr allweddol yn y diwydiant ym mis Rhagfyr i drafod yr heriau hyn a'r cyfleoedd i gynhyrchu drwy ddyframaethu yng Nghymru wrth inni fynd ati i ddatblygu’n ffordd strategol o ymdrin â'r sector.

- **Ymateb i adroddiadau nad yw 'Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Morol Cymru' yn 'gweithio' bellach: pa effaith y mae hyn wedi'i chael ar weithredu polisi?**

Ar ôl i gyfnod y Cadeirydd blaenorol yn y swydd ddod i ben, rydym wedi manteisio ar y cyfle i ailedrych ar y Grŵp. Oherwydd bod blaenoriaethau’n cystadlu â’i gilydd, ac oherwydd materion sy’n gysylltiedig ag adnoddau, rwy’n derbyn bod hynny wedi cymryd mwy o amser nag y byddwn wedi hoffi. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion gwblhau'r gwaith o fewn yr wythnosau nesaf. Mae'r Grŵp, yn y bôn, yn gwneud tri pheth – mae’n cynghori'r Llywodraeth ar faterion sy’n ymwneud â physgodfeydd, mae’n cysylltu ac yn trafod â rhanddeiliaid, ac yn cyd-reoli pysgodfeydd. Rwyf wedi ymrwymo i’r dull cyd-reoli / cyd-gynhyrchu ac rwyf am gael sicrwydd mai'r Grŵp, fel y mae wedi’i strwythuro ar hyn o bryd, yw'r ffordd orau o wneud hynny.

Byddaf yn ysgrifennu ar wahân at y Pwyllgor yn y man am y Cyd-ddatganiad ar Bysgodfeydd. Fodd bynnag, gallaf gadarnhau mai'r cam nesaf ar gyfer y Cyd-ddatganiad fydd ymgynghoriad cyhoeddus a gwaith craffu ym mhob un o ddeddfwrfeydd y DU yn gynnar yn 2022.

Yn gywir,

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**